## Ffocws ar EID

## Mae ffermwyr sy’n chwilio am gyfle i wella perfformiad eu diadell yn cael eu hannog i fanteisio ar y dechnoleg sydd ar gael trwy Ddyfais Adnabod Electronig (EID).



Mae nifer o ffermwyr erbyn hyn wedi buddsoddi mewn technoleg EID er mwyn cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaethol, ond yn ansicr ynglŷn â sut i'w ddefnyddio mewn ffyrdd eraill a all fod o fantais i'w busnesau.

**Mae Cyswllt Ffermio yn cynnal cyfres o sioeau teithiol EID yn ystod mis Chwefror**, i helpu ffermwyr ddysgu mwy am sut i fanteisio ar botensial eu hoffer EID. Bydd ffermwyr yn gallu dod â'u hoffer EID i’r digwyddiadau a thrafod sut i gael y gorau ohono, neu i'r rhai sydd heb fuddsoddi yn y dechnoleg hyd yma, bydd cyfle i ddarganfod mwy.

Mae Sion Ifans a fydd yn cynorthwyo gyda’r sesiynau galw heibio, yn dweud bod defnyddio technoleg EID i fonitro gwybodaeth am ddiadell tu hwnt i ofynion cyfreithiol yn ddefnyddiol iawn i ffermwyr.

“Un o swyddogaethau sylfaenol y dechnoleg yw’r gallu i fonitro perfformiad,” meddai. “Mae cofnodi cynnydd pwysau byw (DLWG) ŵyn yn arbennig o ddefnyddiol, yn enwedig gan eich bod yn gallu gweld manteision yr wybodaeth ar ôl pwyso ddwywaith.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

“Gall ffermwyr fonitro sut mae'r ŵyn yn perfformio a gwneud sawl penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gywir a fu'n gymharol rwydd i'w gasglu. Os oes gan rai ohonynt gynnydd pwysau byw uchel, gallant benderfynu p’un ai y dylent eu gwthio i gyrraedd y lefel gywir, neu os oes gan anifail gynnydd pwysau byw isel, gallant eu tynnu allan a cheisio gweld pam nad ydynt yn perfformio. Weithiau mae gweld yr enillion wrth iddynt ddatblygu yn ddigon i sbarduno diddordeb i wneud mwy gyda’r dechnoleg.”

Gall EID hefyd gael ei ddefnyddio i gysylltu perfformiad ŵyn yn ôl i’r famog, gan alluogi ffermwyr i nodi anifeiliaid sy’n fwy addas ar gyfer eu system bridio, neu ochr fasnachol eu busnes.

Dywed Sion Ifans ei bod hi’n bwysig canolbwyntio ar ddau faes penodol wrth ddechrau cofnodi gwybodaeth gydag EID.

Ychwanegodd: “Weithiau mae ffermwyr yn cofnodi cymaint o wybodaeth nes eu bod yn cael eu llethu a’u bod yn ansicr beth i’w wneud gyda’r holl wybodaeth, felly mae’n well canolbwyntio ar un neu ddau beth. Byddant yn gallu manteisio mwy ar yr offer wedyn.

“Weithiau, mae’n helpu os oes rhywun o du allan i’r fenter ddefaid yn gallu edrych ar y ffigyrau ffisegol gyda nhw a nodi sut mae’n bosib gwella perfformiad diadell o ddata a gesglir gydag offer a meddalwedd EID."

Mae croeso i ffermwyr ddod ag unrhyw ddata a gasglwyd ganddynt gydag EID i’r sioeau teithiol i nodi’r data fyddai’n gallu bod fwyaf defnyddiol i’w busnesau.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government